# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Hydref 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyhoeddiad Fujitsu Services ynghylch colli swyddi yng Nghymru. (WAQ55002)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Hydref 2009***

Mae Fujitsu wedi cychwyn ar broses ymgynghori tri mis ar draws y DU lle bydd materion yn ymwneud â llafur yn cael eu trafod gyda'r priod undebau. Disgwylir cyflawni'r colledion arfaethedig erbyn diwedd 2009 a bydd yr holl gyflogeion yr effeithir arnynt yn cael cynnig arweiniad a chymorth

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl gwneud cyhoeddiad am y ffordd ymlaen gyda chyllid 'Cefnogi Pobl'. (WAQ54997)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Hydref 2009***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Nid wyf wedi dod i benderfyniad eto ynglŷn â throsglwyddo Grant Refeniw Cefnogi Pobl. Rwyf wedi gofyn i CLlLC a Chymorth Cymru i weithio gyda fy swyddogion i drafod y ffordd ymlaen, gan ystyried y materion a'r pryderon sydd wedi eu datgan. Dymunaf sicrhau na fydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r broses drosglwyddo yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran datblygu cartrefi nyrsio di-elw sydd wedi'u hadeiladu yng Nghymru ers cyflwyno Agenda Cymru'n Un. (WAQ54998)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Hydref 2009***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Rydym wedi bod yn ystyried ystod o opsiynau er mwyn dod o hyd i'r dull gorau o weithredu ac erbyn hyn yn datblygu model "Model Canolfan Adnoddau" mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Bydd hyn yn darparu cyfleuster unigol ar gyfer gwasanaethau lleol gan gynnwys darpariaeth cartref nyrsio sydd yn arbennig o berthnasol mewn cymunedau gwledig.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y nyrsys sydd ar gael i ysgrifennu presgripsiynau. (WAQ54999)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Hydref 2009***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pwy fydd yn archwilio'r safonau a gynigir yn Agenda Cymru'n Un i wella bwyd ysbytai a glanweithdra ysbytai, a phwy fydd yn penderfynu a yw'r gwelliannau hynny wedi cael eu gwneud ai peidio. (WAQ55000)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Hydref 2009***

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n cynnal adolygiadau ar lendid ysbytai. Pan fydd angen gwelliannau, caiff cynllun gweithredu ei lunio gan sefydliad y GIG a'i fonitro gan swyddogion drwy swyddfeydd rhanbarthol iechyd. Caiff ansawdd bwyd ysbytai ei fonitro ar lefel wardiau ac mae'n rhan o "Hanfodion Gofal".

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gymorth y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei roi i bysgotwyr Cymru sydd wedi'u hatal rhag pysgota ym Mae Aberteifi tan 1 Mawrth 2010. (WAQ55003)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Hydref 2009***

I ddiogelu'r bysgodfa yn y tymor byr ac i geisio hyfywedd hirdymor y bysgodfa gwneuthum y penderfyniad anodd iawn i ymestyn y tymor caeedig tan Chwefror 28ain 2010 o dan Orchymyn Gwahardd Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2009 ac rwyf yn cydnabod y baich mae'r pysgotwyr cregyn bylchog yn ei wynebu o ganlyniad i'r ymestyniad hwn. Nid oes cronfa ar gael i mi er mwyn cynnig iawndal o dan amgylchiadau o'r fath. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn ceisio dod o hyd i'r ateb gorau posibl er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y bysgodfa fel rhan o ecosystem forol iach. Rwyf yn gobeithio cyhoeddi'n fuan fanylion Gorchymyn Cregyn Bylchog Cymreig newydd i'w gyflwyno o 1 Mawrth 2010.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel camddefnyddio cyffuriau ar bresgripsiwn ers dyddiad cyhoeddi Agenda Cymru'n Un. (WAQ55001)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Hydref 2009***

Yn ôl adroddiad Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau cafwyd 1931 o atgyfeiriadau triniaeth o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau presgripsiwn ers mis Gorffennaf 2007. Mae cynllun gweithredu tair blynedd strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' yn gosod ymrwymiadau'r Cynulliad o ran meddyginiaethau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys cefnogi gwaith ymchwil i batrymau presgripsiynu benzodiazepines, ymgynghori â chyrff proffesiynol perthnasol i annog presgripsiynu a gweinyddu cyfrifol; ac adolygu darpariaeth gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael i'r rheini sy'n ddibynnol ar feddyginiaethau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter.